

Siampên a Gwinoedd Pefriog

125ml

Potel

Gwinoedd Pefriog

NV Prosecco Vispo Allegro Vino Spumante, Yr Eidal 4.95 26.00

Gwin pefriog gyda swigod hufennog a chyson a blas ffrwythau acacia, mêl, ffrwythau sitrws ac almon, rhinweddau'r amrywiaeth o rawnwinen.

NV Prosecco Extra Dry Fiol, Prosecco DOC, Yr Eidal 41.00

Lliw gwellt golau, gyda phersawr nodweddiadol sy'n ein hatgoffa o flodau wisteria, acasia a hefyd afalau bach surion aeddfed. Gydag asidedd yr alcohol wedi'i ffrwyno'n gelfydd, mae'n fywiog ond heb fod yn ormesol. Cynigia ffresni a blas bendigedig, sawrus a rhywfaint yn felys, gan gyfrannu mwy fyth at gadw'r cymeriad hwnnw sydd mor ddymunol a deniadol.

Langlois Chateau Cremant de Loire Brut, Loire, Ffrainc 41.00

Ffrwyth bywiog gyda blas fel bara a ffresni afal afeithus gyda blas lemwn cwyrog Chenin Blanc.

Cloudy Bay, Pelorus, Seland Newydd 49.00

Mae cychwyniad chardonnay y gwin yn bywiogi arogl ffrwythau sitrws aeddfed ac yn tynnu ohono arogl afal a lemwn. Mae Pinot Noir yn ychwanegu nodau sawrus - mae rhinwedd burum yn ein hatgoffa o fara wedi grilio a brioche.

Rosé Pefriog

Del Fin Del Mundo Extra Brut, Patagonia Yr Ariannin 34.00

Arogl hyfryd ffrwythau trofannol, ychydig o arogl burum, ffrwythau sych, ychydig o nodau bara wedi'i dostio a blodau gwyn bregus. Yn ffres ac yn gyson yn y geg, swigod cyson ac unffurf, hufennog gyda blas ffrwythau coch am hir wedi ei yfed.

NV Ancre Hill Estate, Cymru 59.00

Pinc golau gyda nodau o wellt. Arogl sitrws, mefus a phwdin bara ffrwythau'r haf. Blas ffrwyth sitrws, mefus gwyllt a hufen yn y geg gydag ychydig o fanila. Ewyn meddal, cyson gyda gorffeniad meddal a glân ac asidedd sensitif.

Siampên

NV Veuve Clicquot Yellow Label, Reims 12.90 69.00

Blas afal a gellyg yn y geg yn creu Siampên ffres, persain a bywiog.

Veuve Clicquot, White Label, Demi Sec **79.00**

Lliw melyn hyfryd gyda llygedyn euraidd dwfn ac ewyn gwastad coeth. Arogl dwys ffrwyth aeddfed (ffrwyth sitrws siwgrog, gwirod ffrwythau) gyda nodau o frioche a thost, sy'n grwm ac aeddfed yn y geg.

Veuve Clicquot Rich **95.00**

Mae'r Veuve Clicquot yma yn ddisglair a chlir. Arogl eirin gwlanog, bricyll, pîn afal a mango - gydag awgrym o almon. Mae ychydig yn felys gyda nodau sitrws ffres a blodeuog gyda gorffeniad melfedaidd.

Veuve Clicquot Extra Brut Extra Old **105.00**

Melyn dwys gyda fflachiadau o aur a swigod coeth, mae'r siampên yma yn cynnwys arogl ffrwythau cerrig aeddfed a burum ysgafn a sitrws siwgrog a'r blas tost sy'n arwyddnod arbennig. Yn y geg mae Extra Brut Extra Old yn llyfn a phwerus gyda bwrlwm coeth. 4.5 bar yw'r pwysedd o gymharu â 6 bar sy'n arferol. Mae ffresni, mwynder a phurdeb yn esblygu i orffeniad hir gydag ychydig o halltedd.

Ruinart Blanc de Blanc **105.00**

Arogl sitrws ffres, ychydig o jasmin, eirin gwlanog gwyn a grawn pupur pinc. Blas ffres a chain gyda swigod bach a chynildeb sitrws tost.

Laurent Perrier Grand Siecle, Grande Cuvee **195.00**

Cymysgedd o nifer o gynaeafau ac mae'n hufennog, ffres a phrydferth o gain. Swigod bach bendigedig gydag ychydig o flas cnau sy'n rhoi profiad soffistigedig.

Dom Perignon 2009 **195.00**

Mae Dom Perignon 2009 yn gymharol, disglair a gogoneddus. Mae ei haelioni gwreiddiol - yn ddigonol a chyffyrddus - yn gwella drwy'r strwythur clir sy'n rhoi ffresni a manylder iddo. Argraffiadau o aeddfedrwydd tusw pur, awyrog a llachar. Yma mae tòn blodeuog, ffrwythau pastel yn dod i'r amlwg ac yn tywyllu yn gyflym i ffrwythau siwgrog, gwair aeddfed ac awgrymiadau o licoris. Wedi'i wneud o'r grawnwin gorau un yn unig, mae ymrwymiad Dom Perignon i adael i win heneiddio yn gwbl absoliwt. Mae pob gwin yn cael ei greu o'r grawnwin gorau a dyfir mewn un flwyddyn.

Krug NV Grande Cuvee **205.00**

Sefydlwyd Krug yn 1843 ac ers hynny mae wedi arbenigo mewn cynhyrchu Siampên arbenigol yn unig. Dyma'r unig gwmni sy'n dal i gynhyrchu ei holl Siampên mewn casiau derw bach, elfen hanfodol ar gyfer datblygu tusw dwys a blas cymhleth Krug. Daw'r NV Brut Grande Cuvee o'r gwydr gyda blas blodau newydd eu torri, almonau, pasteiod a sbeisys. Mae hwn yn Grande Cuvee blodeuog, gyda llai o'r nodweddion ocsid sy'n nodweddiadol o arddull y tŷ.

2008 Cristal, Louise Roederer **215.00**

Daw'r Cristal eiconig hwn gan wneuthurwr gwin gwobrwyol y flwyddyn, Jean-Baptiste Lecaillon. Dwys a phur, mae ganddo nodau o fricyll, cnau cyll a chrystiau Denmarc. Siampên ar gyfer y dathliad eithaf.

Siampên Rose

Laurent – Perrier, Tours-sur- Marne **99.00**

Siampên pinc clasurol gyda digonedd o ffrwyth mefus ac yn llawn bywiogrwydd sy'n bleser i'w yfed.

Veuve Clicquot, Vintage Rose 2008 **115.00**

Mae i'r siampên hwn liw dwfn gwych a dwys ac yn binc gydag arlliw o oren. Mae aroglau cryff ffrwythau coch a du (yn enwedig ceirios griotte) ac ychydig o sbeisys (papur a fanila) arno.

Magnum

NV Veuve Clicquot Yellow Label, Reims **130.00**

Blas afal a gellyg sy'n aros am hir yn y geg sy'n creu Siampên ffres, bendigedig a bywiog.

Gwinoedd Pwdin 37.5cl oni nodir yn wahanol **75ml** **Potel**

NV Cosecha de Mayo, Semillon Tardio. Yr Ariannin 12% **4.50** **26.00**

Lliw oren dwfn, taffi a rhesins gydag ychydig o groen oren siwgrog sydd bron yn gorchfygu'r gwin gyda melystod.

2014 Ginestet Sauternes, Ffrainc 13% **4.50** **26.00**

Wedi ei wneud yn arbennig o Sémillon, mae hwn yn win cyfoethog a blasus i loetran drosto. Lemwn a leim mewn mêl sydd mor fendigedig gyda chyfoeth rhyfeddol o aeddfed.

Arele Vino Santo Trentino DOC, Yr Eidal 13% **potel 50cl** **82.00**

Gwin bendigedig eithriadol o ddwys ac ysbrydoledig gyda lliw copr euraid dwfn. Sylwedd trigoglyd ac arogl hynod aeddfed o fricyll sych, syltanas ac eirin sych. Perffaith gyda thartenni cain wedi'u gwneud â chrwst menynaidd a ffrwythau ffres, neu wedi'i ddiferu'n gelfydd ar gnau, ffrwythau sych a hufen iâ o'r radd flaenaf.

Port **7ml** **Potel**

Port 10 oed Taylors, Hwyr – Wedi'i botelu **6.00** **48.00**

Tawny Porto, Taylors 20 oed **59.00**

Gwin Gwyn

125ml 175ml Potel

2016 Live Wire Sauvignon Blanc, Seland Newydd 12.5% 4.15 5.20 21.00

Mae'r gwin yma o Marlborough yn lliw gwellt golau. Mae ei arogl bywiog yn cynnwys ffrwythau'r dioddefaint, rhinweddau sitrws a pherlysiâu ffres. Mae'n grimp ac yn ddwys ac yn dangos blas sitrws gydag awgrym o goriander ffres sy'n dod â diwedd bendigedig ac awchus.

2017 Rebouca Alvarinho, Portiwgal 12,5% 4.75 5.90 24.00

Mae digonedd o arogleuon i'r gwin yma a blas eirin gwlanog, lemwn ac oren. Mae'n llawn ac yn ysgafn yn y geg gyda gorffenniad dymunol.

2017 Pecorino, Terre Di Chieti, Yr Eidal 13% 5.40 6.75 27.00

Melyn golau - aur ei liw, mae'r ychydig o arogl sbeisys i'r gwin yma oherwydd ei fod wedi ei gadw mewn derw i ddod i oed ac mae'n rhoi blas blodeuog a ffrwythau sitrws aeddfed yn y geg.

2015 Chateau Martinolle Limoux, Chardonnay, Ffrainc 13% 6.40 8.00 32.00

Arogl blodau a sitrws gyda rhinweddau ffrwythau cerrig. Sitrws llawn sudd, eirin gwlanog gwyn a thon o hufen sy'n aros dros orffenniad hir llawn sbeis. Bendigedig.

Gwin Coch

2017 Baner Coeden Flag Tree Malbec, Yr Ariannin 12.5% 4.15 5.20 21.00

Mae yma arogl ffrwythau gydag awgrymiadau o fioledau'n cyffwrdd â blas eirin a cheirios aeddfed sy'n rhinwedd o'r gwinoedd hyn sy'n nodweddiadol o dannin llyfn a melys. Mae'r Malbec unigryw a hyfryd hwn yn gytbwys ar draws y tafod gyda gorffenniad hir a pharhaus.

2016 Old True Zin Organic Zinfandel, Yr Eidal 14% 4.75 5.90 24.00

Lliw porffor dwys yn y gwyr, ac yn fwy o oren gan ddangos ychydig o oed. Mae'n llawn ffrwyth wrth ei flas, gyda nodau o eirin, marmalêd ceirios, tybaco a sbeis gyda blas coco, coffi a fanila ar ôl ei flas. Fe'i haeddfedir mewn ffatiau pren, dur di-staen, cyn cael ei botelu a'i werthu.

2012 Raiz de Guzman Crianza, Ribera del Duero, Sbaen 15% 5.40 6.75 27.00

Dyma un gwych! Yn llawn gydag arogl tannig, eirin tywyll, mwyrar duon a cheirios gyda nodau sbeis a derw perlysiâu. BENDIGEDIG!

2016 Hesketh Midday Somewhere Shiraz, De Awstralia 14,5% 6.40 8.00 32.00

Shiraz beiddgar a hael gyda blas ffrwyth disglair a hit o siocled a sbeis.

Gwin Rosé	125ml	175ml	Potel
------------------	--------------	--------------	--------------

The Old Station Zinfandel, California	4.25	5.25	22.00
--	-------------	-------------	--------------

Ysgafn a ffres, lliw pinc golau bendigedig yn llawn cyrens coch a mefus.

2017 Sancerre, Domaine Michel Girard, Ffrainc 13%			35.00
--	--	--	--------------

Gwir flas rosé 'go iawn'. Gwin gwridog hyfryd, wedi'i drwytho mewn mefus – y cymar perffraith i ddiwrnod heulog braf. Croyw, sych a llyfn ar daflod y geg. Gwirioneddol fendigedig.

2017 Whispering Angel, Cotes de Provence, Ffrainc 13%			49.00
--	--	--	--------------

Y cyfuniad cyffrous hwn o Grenache, Rolle, Cinsault, Syrah a Mourvedr yw'r cuvée mwyaf gwefreiddiol o Cote de Provence i addurno silffoedd siopau gwinoedd ers tro byd. Lliw orenbinc golau yn y gwyrdd. Mae arogleuon hudolus o fefus aeddfed llawn sudd, eirin gwlanog gwyn, granadilas a chroen lemwn yn treiddio trwy'r ffroenau.

Gwin Gwyn

2016 Pinot Grigio, Allamanda, Yr Eidal 12%			22.00
---	--	--	--------------

Gyda chymeriad crimp, sych, ysgafn blodeuol a nodyn cynnil cynnes ar y gorffeniad. Dyma enghraifft dda o Pinot Grigio, gwin gwyn sydd wedi datblygu yn gyflym i fod yn un o'r gwinoedd mwyaf poblogaidd ym Mhrydain.

2016 Les Maines Noires Cote du Rousillon, Ffrainc 13%			22.00
--	--	--	--------------

Cyfuniad o 70% Grenache Blanc a 30% Macabeu. Mae'r gwin hwn rywffaint yn aromatig gyda nodau o afalau gwyrdd, sitrws a blodau, a gorffeniad blasus ffres.

NV La Mona, Moscatel Verdejo Semidulce, Sbaen 12%			22.00
--	--	--	--------------

Cewch asidedd llachar a ffres gyda lemwn, afal gwyrdd, ciwi a gellyg. Byddwch hefyd yn mwynhau ffenigl, madarch ac awgrym o laswellt. Mae'r gwin yn sych ac ychydig yn felys.

2016 Pinot Grigio Trentino, Yr Eidal 13%			26.00
---	--	--	--------------

Mae'r Pinot Grigio lliw gwellt hwn yn gyfoethog a chrwn, gyda nodau blodeuog amlwg ar y trwyn. Ar daflod y geg caiff y blasau cnau a mêl eu cydbwysu gan asidedd lemonaidd, croyw.

2017 Truckheim Terres De Granit Pinot Blanc Ffrainc 12.5%			26.00
--	--	--	--------------

Mae gan y gwin hwn arogl persawrus sy'n awgrymu eirin gwlanog a sitrws, ond gydag asgwrn cefn cadarn sydd i'w deimlo ar daflod y geg, gyda sbeisys ysgafn a gorffeniad croyw i gynnig cydbwysedd.

2017 Chenin Blanc Viognier, Percheron, De Affrica 13%			27.00
--	--	--	--------------

Yn rhyfeddol o aromatig ar y trwyn gyda blasau ffrwythau cerrig gwyn bywiog a gorffeniad pur, cytbwys.

- 2014 Mas des Tannes, Chardonnay, Ffrainc 13%** **27.00**
Yn gyfoethog ac yn llyfn yn y geg, mae'r gwin yma yn llawn arogl blodau gwyn, gellyg ffres a ffrwythau dioddefaint.
- 2016 Pinot Gris, Hesketh, De Awstralia, 13%** **27.00**
Gwenithen lliw golau gydag arogl gwyrdd a lemwn. Arogl ffrwythau sitrws gydag ychydig o arogl blodau a melon melyn.
- 2018 Valdivieso Single Valley Lot Sauvignon Blanc, Chile 12%** **28.00**
Arogl cryf ffrwythau'r dioddefaint a grawnffrwyth. Yn sawrus ac yn tynnu dŵr i'r dannedd gyda chyffyrddiad o flas ffrwythau trofannol gwyrdd.
- 2016 Gavi la Battistina, Yr Eidal 12%** **29.00**
Arogl aromatig, afieithus a sierbert gydag afal, gellyg, leim a ffrwythau'r dioddefaint ac ychydig o fwynderau. Ffrwyth llawn sudd gyda theimlad asid sitrig sy'n creu gorffeniad adfywiol a boddhaol.
- 2017 Premium Fume, Budureasca, Romania 13.5%** **29.00**
Cyfuniad o 33% Chardonnay, 34% Sauvignon Blanc a 33% Pinot Gris. Lliw gwellt, arogl cymhleth gyda blas eirin gwlanog a bricyll ac awgrym o fanila a phren wedi'i fyggu. Ceir cydbwysedd da gyda blas dwys ac adflas sy'n para'n hir.
- 2015 Cotes Du Rhone, La Fleur Solitaire, Boutinot, Ffrainc 13%** **29.00**
Cymysgedd o Clairette, Grenache, Viognier a Roussanne. Melyn gydag ychydig o wyrdd yn treiddio drwyddo. Arogl blodau cryf a phur gyda nodau o lemwn ffres a siwgrog. Yn grwm a ffres ac yn ein taro yn annisgwyl gyda'i strwythur cymhleth, ffres a bywiog.
- 2012 Cote Du Roussillon, Bila – Haut, M. Chapoutier, Ffrainc 13%** **29.00**
Arogl sitrws a nodau myglyd. Daw ffresni bendigedig o'r gymysgedd o Grenache Blanc, Grenache Gris a Macabeu.
- 2016 Vouvray Sec "Cher et Tendre", Ffrainc 11.5%** **29.00**
Mae Vouvray Sec yn fath sych cymharol brin a gwerthfawr o Vouvray, a dyna pam yr ydym wedi'i alw'n "Cher et Tendre", ar ôl y term anwes Ffrengig a glywir ar lafar sy'n golygu 'rhywbeth gwerthfawr' neu 'trysor'. Mae tyfwyr gwin Sec Tendre' yn dewis disgrifio math o Vouvray sy'n llwyddo i gyfleu blas llyfn, crwn a chyfoethog Chenin Blanc hollol aeddfed, sy'n llawn ffrwythau ond eto'n sych.
- 2016 Delas Vin de Pays Viognier, Ffrainc 13%** **29.00**
Lliw llachar ag arlliw euraid. Wrth ei arogl, sawrau arbennig y grawnwin a ddaw i'r amlwg, gyda bricyll, eirin gwlanog, ffrwythau egsotig a ffrwythau sitrws. Mae'r blas ar daflod y geg yn llyfn ac yn ffres, gan orffen gydag awgrym o ffrwythau sych.
- 2016 Domaine des Tourelles, Vallee de La Bekka, Liban 13%** **31.00**
Cymysgedd o Chardonnay, Muscat of Alexandria, Viognier. Lebanese gwyn sy'n mynd yn wych gyda bwyd y Canoldir.

- 2016 Alsace, Gewurztraminer, Cave de Turckheim, Ffrainc 13%** **31.00**
Cydbwysedd bendigedig o aeddfedrwydd, purdeb amrywiol a chynildeb (h.y. ddim yn ormodol a rhy drwm fel rhai). Arogl petalau/ dŵr rhosyn a grawnffrwyth.
- 2016 Albarino Bodega Garzon, Uruguay 12.5%** **32.00**
Mae'r Albarino hwn yn portreadu arogl aeddfed eirin gwlanog gwyn, ffrwythau sitrws fel grawnffrwyth a thanjarin, bricyll aeddfed a hefyd blodau golau sydd ddim yn jasmin. Mae ganddo deimlad ffres yn y geg a ffrwythau gyda nodau mwynol ac mae'n cael ei orffen gydag asidedd hynod ffres a chytbwys gyda strwythur da a gorffeniad.
- 2017 Mad Fish Riesling, Awstralia 12%** **32.00**
Lliw lemwn bendigedig gydag arogl croen lemwn, blodau sitrws a gellyg croen gwyrdd. Y blasau yw sitrws, afalau a gellyg gydag asidedd mwynol /carreg feddal sy'n gwneud y blas yn ffres a hirhoedlog.
- 2015 Fritz Willi, Riesling, Yr Almaen 11.5%** **32.00**
Arogl bricyll aeddfed ac afalau coch. Rhinweddau sitrws bendigedig yn cydbwysu gyda'r mwynder adfywiol.
- 2016 Terrazas de los Andes Chardonnay, Yr Ariannin 14%** **32.00**
Cymeriad ffres llawn ffrwythau fel eirin gwlanog gwyn, pîn afal a chroen lemwn ac arogl rhosod gwyn a brioche. Caiff ei gwblhau gan nodau cnau a fanila.
- 2013 Rock Ferry, Pinot Blanc, Seland Newydd, 13%** **32.00**
Aroma mwsoglus gydag awgrymiadau o arogl oren. Mae'r paled yn llawn gwead ac yn bwysog gyda ffocws a hyd da. Wrth heneiddio bydd y gwin yn datblygu rhinwedd hyfryd almon wedi ei dostio, caramel cyfoethog a tharten afal.
- 2015 Turckheim Reserve Pinot Gris, Ffrainc 13%** **33.00**
Wedi'i wneud â grawnwin a ddewiswyd yn ofalus o safleoedd gwell na'r rhelyw, dyma win sych cyfoethog, aeddfed a chrwn. Melyn euraid golau gydag arogl blodeuog a sbeislyd, llawer o gymeriad yn perthyn iddo gyda gorffeniad hir a chanddo rywfaint o flas mwg.
- 2016 Macon – Lugny Pierre Ponnelle, Ffrainc 12.5%** **34.00**
Mae'r gwin Bwrgwyn hwn o'r Maconnais, sydd heb gael ei aeddfedu mewn casgenni derw, wedi'i wneud yn gyfan gwbl o Chardonnay a cheir ynddo nodau ffrwythau sitrws nodweddiadol gyda blas menyfaidd a gorffeniad ffres croyw.
- 2016 Crozes Hermitage Mule Blanche Jaboulet, Ffrainc 13.5%** **36.00**
Cyfuniad o 50% Marsanne a 50% Roussanne. Gwin aromatig bendigedig, yn llawn arogleuon ffrwythau aeddfed fel eirin gwlanog a phîn-afalau, yn ogystal â blodau gwyn. Mae blas mwy ar y gorffeniad hufennog, cneuog hir.

- 2016 Pra Soave Otto, Yr Eidal 12%** **36.00**
Arogl ffres, blodeuog a throfannol gyda gellyg aeddfed a chyffyrddiad o fwg pren. Mae'r paled yn ddeniadol o ran gwead a sudd, gan ddangos dwysedd awchus gydag awgrym o almonau. Blas cyfoethog a gorffeniad crimp, croyw a mwynol.
- 2015 The Olive Grove Chardonnay, Adelaide Hills, Awstralia 12.9%** **36.00**
Mae iddo arogl nectarin ffres a lemwn aeddfed ac ychydig o anis a ffenigl sydd ddim yn amharu ar y gorffeniad ffres llawn sudd.
- 2015 Chablis Domaine de la Motte, Ffrainc 12.5%** **36.00**
Ffrwyth mwynol ond dyfnder o 10% ychwanegol o dderw yn y gymysgedd. Chardonnay aur golau ei liw gydag ychydig o wyrdd ynddo ac arogl ffrwythau gydag arogl menyn a chnau.
- 2017 Spy Valley Pinot Gris, Seland Newydd 14%** **38.00**
Lliw gwellt golau. Arogleuon Pinot Gris clasurol o ellyg, melonau ac awgrym o sbeisys eggsotig. Cryf a chyfoethog gyda gorffeniad hyfryd, hir. Caiiff blas croyw'r ffrwythau ei gwblhau gan gymeriad cynnil, dan lai o ddylanwad.
- 2016 ST VERAN Les Ombrelles, Ffrainc 13%** **39.00**
Gwin Bwrgwyn Chardonnay rhagorol y drws nesaf i Pouilly-Fuisse. Arogl glân, ffrwythau perllan gyda gorffeniad a rhywfaint o flas mêl cynnil arno. Strwythur cytbwys a dwyster da gyda digonedd o ffresni.
- 2017 Groot Constantia, Sauvignon Blanc, De Affrica 14%** **39.00**
Y winllan hynaf yn De Affrica 1685. Creodd yr amodau sych ac oer win hyfryd llawn arogl gyda digonedd o ffrwythau'r dioddefaint a melon a nodau bach o wellt a danadl poethion. Ffrwyth trofannol aeddfed ar dafod y geg tra bod yr awgrym o flodau ac asidedd yn gadael tafod y geg yn ffres a sych.
- 2016 Sancerre, Les Collinettes, Joseph Mellot, Ffrainc 12.5%** **39.00**
Arogl ysgafn o wsberis a blasau ffrwythau pwerus a gorffeniad glân.
- 2014 Vire – Clesse, Chanson, Ffrainc 13%** **39.00**
Lliw aur golau. Arogl adfywiol o ffrwyth sitrws (grawnffrwyth) wedi eu cymysgu â mêl ffres gydag awgrym o fwynau. Strwythur da a dwys. Asidedd wedi ei gynnwys yn dda ynghyd â mwynau bendigedig.
- 2015 Gnarly Head Viognier, Manteca, California, 13.5%** **41.00**
Croyw a llawn ffrwyth gydag arogl a blas eirin gwyn, gwyddfid, sitrws, bricyll ac oren gydag ychydig o fioled.
- 2014 Spa Valley Gewurztraminer, Seland Newydd 14%** **42.00**
Gwin cynnil a phersawrus. Mae'n hynod lyfn yn y geg, gydag ymdeimlad o bwysau a rhywfaint o gryfder. Mae petalau rhosynnau, fioledau parma a blodau gwyn hynod beraroglus yn ymuno â blasau mwy ffrwythaid fel gellyg, afalau a sbeisys eggsotig ysgafn.

2015 Tempus Two, Semillon, Hunter Valley, Awstralia 11% **43.00**
Semillon 100% gyda blas lemwn a leim a chydbwysedd o siwgr ffrwyth naturiol meddal sy'n rhoi ffurf meddal a llawn.

2015 Montagny 1er Cru Vignes Derriere Pierre Sauvage, Ffrainc 12.5% **45.00**
Nodau aromatig blodau gwyn ar y trwyn gydag ymdeimlad o ffresni mwynol siarp. Mae purdeb pleserus yn llifo trwy'r blas, gydag awgrym o wyddfïd. Mae'r ffrwythau'n aeddfed, ond ceir asidedd perffaith i gydbwysu hyn. Strwythur da a gorffeniad blasus.

2017 Ktima Gerovassiliou, Viognier PGI Epanomi, Gwlad Groeg 14% **46.00**
Dyma un o'r Viogniers 100% gorau a wneir tu allan i Ogledd Rhome. Wedi ei eplesu mewn casgen dderw Ffrenig newydd ac wedi mynd i oed ar ei waddod, dyma win ffres, wedi ei ddwysau yn llawn blas cymhleth eirian gwlanog, oren, jasmin lemwn, perlysiâu a phupur. Mae asidedd yn cadw'r gwin mewn cydbwysedd perffaith ac mae'r gorffeniad yn hir ac yn fendigedig.

2017 Pouilly Fume Renardiere, Ffrainc 12.5% **47.00**
100% Sauvignon Blanc. Lliw melynwyrdd sydd i'r gwin, ac mae ganddo arogleuon blodeuog, irlas dirif ar y trwyn gydag awgrym o goed bocs a chyrens duon. Mae'n fywiog, yn ffres ac yn aromatig ar daflod y geg. Gwin cain â gorffeniad hir a nodweddir gan flasau cadarn, y cyfeirir atynt yn aml fel 'fflint gwn'.

2016 Rully Blanc Jaffelin, Ffrainc 13% **47.00**
Arlliw euraid bendigedig gyda rhywfaint o wyrdd. Arogl amlwg ffrwythau a blodau. Mae'r blas yn ddymunol dros ben gyda chryn dipyn o ffrwythau trofannol ar y gorffeniad.

2014 Nielson gan Byron Santa Barbara Chardonnay, UDA 13.5% **49.00**
Mae'r arogl yn llawn mêl acacia, blodau coed orenau a fanila melys. Mae'r blas yn groyw a chryf, gyda chydbwysedd gwych a blas cneuog cyfoethog. Llauer o gymeriad, llyfn a thynn – gwin gwyn amlochrog, llawn steil.

2017 Cloudy Bay Sauvignon Blanc, Seland Newydd 13% **49.00**
Arogl leim a grawnffrwyth yw'r rhai cyntaf i ddod i'r trwyn ar gyfer y Sauvignon Blanc 2013 yma ac yna nectarin a lemonwellt. Mae'n ffres ar daflod y geg gyda ffrwythau cerrig aeddfed sitrws, ffenigl a nodau mwynderau sy'n aros ar y gorffeniad cyson.

2015 Cloudy Bay Chardonnay, Seland Newydd 13.5% **49.00**
Mae'n gyfoethog ar daflod y geg ac eto mae iddo wead sialclyd sy'n cefnogi cymhlethdod mwynol a hufennog sydd iddo oherwydd technegau gwneud gwin traddodiadol sy'n perthyn iddo.

2015 Pouilly Fuisse Le Vieux Murs Loron, Ffrainc 13% **51.00**
Gwin ag arogl cymhleth, dwys. Blas y grawnffrwyth a'r afal a ddaw i'r amlwg yn gyntaf, ac yna awgrym sbeislyd cain o sinamon ar gefndir o dost. Yn y geg ceir cydbwysedd perffaith, gyda'r sylwedd dwys yn cael ei adfywio gan hoender hallt. Mae'r arogleuon yn amlwg ac, yn fwy na dim, yn oedi'n hir ar y gorffeniad ffres a siarp.

- 2010 Marques de Murrieta Blanco Reserva Capellania, Sbaen 13.5%** **54.00**
Arogl dwys aur golau o ffrwythau euraid aeddfed gyda mwg ac almonau. Mae'r blas yn sych ac yn sawrus, gyda derw fanila wedi'i orchuddio gan ffrwythau euraid a ffresni cydbwysol bendigedig ar y gorffeniad.
- 2012 Turckeheim Grand Cru Riesling, Ffrainc 12.5%** **54.00**
Ardaloedd o bridd eithriadol lle na ellir plannu ond Riesling, Muscat d'Alsace, Pinot Gris a Gewurztraminer. Llymaid bendigedig o gymhleth a hynod flasus!
- 2013 Torres, Fransola, Sauvignon Blanc, Penedes, Sbaen 13%** **55.00**
Caiff ffrwyth trofannol ffrwyth y dioddefaint a ffig ei gefnogi gan dderw hufennog ond cynnil. Mae'n ysgafn ac yn ddigyffro. Dyma win gwych o'r ystâd unigol yma.
- 2014 Domaine Chante Cigale, Chateauneuf-Du-Pape, Ffrainc 13.5%** **58.00**
25% Grenache Blanc, 25% Clairette, 25% Roussanne, 25% Bourboulenc. Gwin gwyn llawn gyda ffrwyth gellygen aeddfed a chyfoethog sy'n datblygu'n llawn blodau a pherlysiâu. Mae gan y gwin cymeriad hir ac asidedd ffres.
- 2014 Cloudy Bay Te Koko, Sauvignon Blanc, Seland Newydd 13.5%** **67.00**
Beiddgar, haenog a llawn cynildeb. Mae'r blas ffrwythau'n datgelu eirin gwlanog gwyn ac awgrymiadau egsoftig o ddail leim a lemonwellt. Mae'n grwn ac yn aeddfed, ac mae'r nodau mwynol fflintiaidd yn ychwanegu cymhlethdod sawrus.
- 2013 St Aubain 1er Cru Sur Gamay Jaffelin, Ffrainc 13%** **72.00**
Arlliw euraid bendigedig. Ysgafn a blodeuog ar y trwyn, gan ddatgelu arogleuon gellyg. Gwisgi a dymunol yn y geg. Blas syml a chytbwys tua'r canol, blas mwynaid bendigedig ac asidedd sy'n tynnu dŵr o ddannedd, gyda'r rhain yn cael eu cyfoethogi gan awgrym o dost ar y gorffeniad.
- 2013 Chateau Lamothe – Bouscaut, Pessac – Leognan, Ffrainc 12.5%** **79.00**
Cymysgedd gwin gwyn o 70% Semillon a 30% Sauvignon Blanc. Mae'r gwin yn dangos cydbwysedd da rhwng cyfoeth o'r derw a nodau mwynder o arogl y tir sef gellyg, melon a blodyn.
- 2014 Puligny Montrachet, Jean Pascal et Fils, Ffrainc 13.3%** **88.00**
Dim nodau ffurfiol, ond yn amlygu ffrwythau sitrws ac afal, sbeislyd ac ychydig o fwynder gyda phwysedd olew sbeislyd ar daflod y geg, asidedd croyw a gorffeniad hir. Gwych.
- 2015 Meursault Jaffelin, Ffrainc 13%** **92.00**
100% Chardonnay. Mae'r grawnwin yn tyfu ar ddarn o dir sydd â phridd bas, a elwir yn Les Forges, wedi'i leoli i'r gorllewin o bentref Meursault. Uchafbwyntiau euraid. Llawn ffrwythau ar y trwyn, sydd yn aml yn creu nodau o riwbob. Pwerus ar daflod y geg gyda llawer iawn o braffter ar y gorffeniad a nodau o almonau wedi'u grilio. MEDAL AUR 'DECANTER' 2017.
- 2009 Chanson Chablis Grand Cru, Les Clos, Ffrainc 13%** **109.00**
Lliw aur golau. Arogleuon dwys ffrwythau melyn aeddfed yn gymysg â mêl. Nodyn fanila cynnil a nodau mwynaid amlwg. Hael a chain. Arogleuon ffrwythau hynod bur. Coeth. Nodau mwynaid cymhleth a lluniaidd. Adflas hir. Chardonnay 100% - rhagorol.

2014 Condrieu, Domaine des Grands Amandiers, Ffrainc 13.5% **122.00**
Jasmin a ffrwythau gyda nodau o fricyll a litshis. Nodau mwynaidd ffres sy'n para'n hir. Gwin hynod gytbwys gyda cheinder a hyd gwych. Mae awgrymiadau o dderw a graswyd yn fframio'r gwin VIOGNIER PERFFAITH, llawn hwn, sy'n osgoi unrhyw ymdeimlad seimllyd neu drwm tra'n parhau i fod yn feiddgar, yn gyfoethog ac yn hir.

Gwin Coch

2015 San Perito, Cabernet Sauvignon, Chile 13% **23.00**
Blas ffrwythau eirin a chyrens duon gyda thewychiad tebyg i cassis a gaiff ei godi gan flas tebyg i bupur gwyrdd. Mae tannin yn rhoi teimlad braf yn y geg.

2016 San Vigilio, Delle Venezie Merlot, Yr Eidal 12% **23.00**
Dyma win sych ysgafn a llawn ffrwyth sydd i'w yfed pan mae'n ifanc. Mae'n goch ei liw ac mae yna nodau blodeuog a ffrwythau iddo wrth ei arogl. Wrth ei flasau mae'r gwedd yn llyfn gyda thannin datblygedig.

2017 Beaujolais Village, Les Pivoines, Ffrainc 13% **25.00**
Llawn sudd, ffres a dymunol – yr union beth a ddisgwyliwch gan Beaujolais Village. Blas meddal gydag asidedd nwyfus a gorffeniad ceirios Morello, blodeuog sy'n tynnu dŵr o ddannedd.

2014 False Bay, Pinotage, De Affrica 13.5% **26.00**
Ffrwyth mwyaren a mwyar duon pwerus a dwys, siocled cyfoethog ac eirin gyda gorffeniad strwythur tannin mân a ffrwyth melys ac aeddfed.

2017 El Viejo del Valle Pinot Noir, Chile 13% **26.00**
Ffrwythau haf yn cynnwys cyrens cochion, mafon a mefus gwyllt ar y trwyn ac yna blas llawn ffrwythau. Mae awgrym o dderw'n ychwanegu cymhlethdod sbeislyd.

2015 Chateau de Fleurie, Heritiers Loron, Ffrainc 12.5% **28.00**
Enghraifft dda o'i fath. Lliw coch neis gydag arogl ffrwythau aeddfed. Asidedd da ac yn llawn sudd ffrwythau ar daflod y geg - llugaeron a cheirios gydag ychydig o sbeis. Gwin amlochrog.

2014 Running with Bulls Tempranillo, De Awstralia 13.5% **28.00**
Lliw ceirios canolig ei liw ac mae llus, ceirios du a had fangl yn neidio atoch o'r gwydr ynghyd ag ychydig o goriander a siocled. Llawn sudd ar daflod y geg yn llawn aeron du gyda gorffeniad mocha, tannin siocled a gorffeniad haearnfaen naturiol.

2016 Pasion de Bobal, Sbaen 13.3% **28.00**

Mae'r gwin gwobrwyol hwn yn cynnig arogl cyfoethog, cynnes a sbeislyd gyda nodau o fwyar duon, mafon ac eirin. Mae'r blas yn llawn nodweddion ceirios surion, mefus a derw hufennog. Gwin hael a hyfryd, gyda thanin cynnil yn ychwanegu strwythur – a phopeth yn cael ei gydbwysu gan sbeis ac asidedd llawn ffrwythau.

2014 Rosso di Montalcino, La Magia, Yr Eidal 13.5% **28.00**

Gwin llawn blas a chrwm. Mae arogl yn llawn ceirios aeddfed cynnes, mwyar duon, coed cedar a sbeis. Mae yna eirin a ffrwythau coch, mwy o sbeis a rhinweddau sawrus sy'n arwain at dannin mân a gorffeniad bendigedig.

2016 Pinot Noir, Vine in Flames, Budureasca, Romania 14% **29.00**

Gwin rhuddgoch gydag arogleuon o geirios ffres wedi'u cyfuno â sbeisys. Oherwydd blas bendigedig yr eirin a'r ceirios duon, yn ogystal â'r tanin cynnil, bu modd aeddfedu'r gwin hwn mewn casgen.

2012 Rioja Crianza, Hacienda Valvares, Sbaen 14% **29.00**

Gwin mawr, cymhleth ond cytbwys gydag arogl cymysg o ffrwythau coch a du. Mae'n llawn rhinweddau jam mwyar duon gyda blas tost, sbeis, coffi a choco ar daflod y geg.

2015 Cotes du Roussillon Village, Bila-Haut, Ffrainc 14.5% **29.00**

Cyfuniad o Carignan, Grenache, Syrah. Lliw garned tywyll bendigedig. Mae'r arogl cyntaf braidd yn gaeedig, gyda graffit a lledr yn bennaf. Yna ceir arogleuon pupur, ffrwythau duon a phrysgwydd. Mae'n gyfoethog ac yn ddwys, ac yna'n braff ac yn solar.

2010 Yalumba Shiraz Viognier, De Awstralia 14% **29.00**

Lliw coch canolig i dywyll, mae'r Yalumba Eden Valley Shiraz Viognier yn rhoi aroma melys, ffres llawn arogl ceirios coch ac eirin gyda chymhlethdod sbeis a chlof sy'n cydfynd ag arogl persawr blodau'r Viognier. Ar daflod y geg, mae'r gwin yn gyfoethog gyda gwead meddal gyda rhinweddau ffrwythau coch, sbeis mân a chlof a phresenoldeb melys Viognier.

2013 Domaine des Tourelles, Vallee de La Bekka, Liban 13% **31.00**

Mae digonedd o casis a cheirios morella aeddfed yn rhinwedd i'r Domaine de Tourelles coch sy'n gymhleth ac aml-haenog gyda thannin cadarn a deniadol ac ychydig o sbeis yn ei orffeniad.

2016 Cotes du Rhone, La Galetiere, Ffrainc 14% **32.00**

Cymysgedd Cotes du Rhone clasurol o Grenache a Syrah. Aroglau cyfoethog a thanbaid o ffrwyth tywyll yn cyffwrdd â'r synhwyrdd ac yn esblygu ar daflod y geg. Bendigedig.

2012 Stairway to Heaven, Cabernet Sauvignon, Sbaen 15.5% **32.00**

Cabernet Sauvignon cymhleth gyda sbeis mân a nodau ffrwythau cain sy'n ddwys ar daflod y geg gyda thannin cryf.

2014 Zinfandel, Cline, California 14%% **33.00**

Cymhlethdod llyfn o dannin braff sy'n cydfynd â blas mwyar tywyll, ceirios du, mefus, nodau o sbeis a fanila a gorffeniad hir.

- 2014 Yalumba Barossa, Old Bush Vine Grenache, Awstralia 13%** **33.00**
Dyma Barossa Grenache ar ei orau. Ffrwythau coch llachar a sbeis yn llifo'n gyfoethog ond eto'n sawrus gan ddod â gwin cain, gyda strwythur tynn i ni a hyd enfawr.
- 2014 Sileni Merlot, Hawke's Bay, Seland Newydd 14%** **34.00**
Mae lliw bendigedig ac arogl eirin a ffrwyth mwyar tywyll yn rhinweddau Merlot Hawke's Bay. Mae tannin sidanaidd yn rhoi gorffeniad meddal ac mae dyfnder y ffrwyth yn golygu y gellir ei gadw am 4 - 5 mlynedd.
- 2011 Classic Bordeaux, Lussac - St - Emilion, Gonestet, Ffrainc 12.5%** **35.00**
Cymysgedd o Merlot 60%, Cabernet Franc 35% a Cabernet Sauvignon 5%. Mae arogl cyfoethog o eirin gyda sbeis ac mae pob cegaid yn feddal gyda ffrwyth ceirios melys.
- 2016 San Felice Chianti Classico, Twsgani, Yr Eidal, 13%** **35.00**
80% Sangiovese, 10% Colorino, 10% Pugnitello. Arogl ffrwythau cochion a mwyar duon moethus gyda nodweddion tybaco sbeislyd, sawrus. Mae'r blas llawn cymeriad yn cynnig ffrwythau cyfoethog dwys gyda haenau o geirios duon, sbeis a nodau sawrus. Gwin coch cymhleth a chyfoethog – gyda gorffeniad hir a llawn.
- 2016 Salvaje Syrah / Roussane, Chile 14.%** **36.00**
Gwin coch hynod gyfoethog a digon o afael ynddo, gyda llus a mwyar duon yn cyfuno'n berffaith ag awgrymiadau o bupur a nytmeg ar daflod y geg. Ceir joch o rawnwin gwynion (yn y Roussane), sy'n rhoi ceinder a chydbwysedd arbennig i'r gwin coch hwn.
- 2015, Crossings, Pinot Noir, Marlborough, Seland Newydd 13.5%** **36.00**
Arogl ffrwyth mwyar duon, ceirios, sbeis ac ychydig o fwg; ceirios tywyll ac eirin ar daflod y geg gyda sbeis derw, tannin meddal a gorffeniad disglair ac adfywiol.
- 2015 Lodge Hill Shiraz, Jim Barry, Dyffryn Clare Awstralia 13.2%** **37.00**
Caiiff y ffrwythau cyrens duon a mwyar Boysen eu dyrchafu gan nodau fioled a menthol, gyda thanin llyfn yn cynnig digonedd o afael. Gorffeniad hir a chyfoethog. Gwin canolig ei lawnder gyda thanin sawrus bendigedig.
- 2015 Tannat, Bodega Garzon, Uruguay 14.5%** **38.00**
Mae'r Tannat yma yn goch a du dwfn gyda blas sy'n aros gyda chi sy'n ffres a meddal. Caiiff y gwin yma ei eplesu mewn casgen dderw newydd ac mewn fats wedi ei selio er mwyn meddalu'r tannin ac i gadw rhinweddau blas ffrwyth du a ddarganfyddir mewn grawnwin Tannat.
- 2015 Appasimento Puglia IGT, Yr Eidal 14.5%** **38.00**
100% Tempranillo, mae digonedd o Garnet coch fel ceirios gydag arogl mwyar duon a chyrens coch. Yn y geg mae cydbwysedd gwych rhwng y ffrwyth a'r coedyn sy'n rhoi blas hufennog a nodau tost.
- 2013 Earthworks, Cabernet Sauvignon, Barossa Valley, Awstralia 14%** **39.00**
Lliw coch tywyll gyda digonedd o arogl Barossa Valley o gynhaef coeth: fanila, llus, ceirios aeddfed, foiled, derw llyfn ac alwm wedi tostio.

2016 Turckheim Organic Pinot Noir, Alsace, Ffrainc 12.5% 39.00

Pur, ffres, llawn cymeriad a chyfoethog, gydag asidedd croyw a ffrwythau mafon clasurol ar y gorffeniad. Melys, gyda blas y ffrwythau'n fwyaf amlwg; ond wrth aeddfedu bydd nodweddion 'blas cig' mwy cymhleth y Pinot Noir yn datblygu... os gallwch aros cyhyd!

2014 Malbec, Bodega Primogenito, Patagonia Yr Ariannin 14.5% 41.00

Mae'r Malbec o'r Ariannin yn boblogaidd iawn ac yn win coch sych, inciog, canolig ei gorff gydag arlliw o ffrwythau tywyll ar y trwyn ac ar daflod y geg. Mae yna dannin meddalach i'r gwin hwn o gymharu â'i gymar Ffrengig.

2013 The Strapper Grenache Shiraz Mataro, Dyffryn Barossa, Awstralia 14% 42.00

Mae'r Barossa Shiraz cyfoethog yn cyd-fynd yn berffaith ag arogleuon cynnil y Grenache sawrus a thanin priddlyd, garw y Mataro. Gwin sawrus, cadarn, coeth.

2013 Chateau Cissac Cru Bourgeois, Haut Medoc, Ffrainc 14% 42.00

75% Cabernet Sauvignon, 20% Merlot, 5% Petit Verdot. Caiff y lliw garned cryf ag uchafbwyntiau fioled ei gadarnhau gan y persawr a'r blas. Gwin o'r radd flaenaf, cymhleth a synhwyrus ar daflod y geg, gyda sylwedd sy'n addo aeddfedu hir.

2015 Vine Mind Shiraz / Malbec, Dyffryn Clare, Awstralia 14% 47.00

Yr un fath â gwneud teisennau garw gyda phentwr o sinamon a nytmeg. Blas ceirios wedi'u socian mewn cola; tua'r canol mae blas coco'r Iseldiroedd yn loetran yn y geg, gyda gorffeniad cyffrous lle y ceir awgrymiadau o godau fanila, cyrens duon a mwyr duon sydd wedi aeddfedu ar y llwyn.

2016 Feral Fox Pinot Noir, d'Arenberg, Bryniau Adelaide, Awstralia 14%

47.00

Ymosodiad ar y synhwyrus dan arweiniad persawr hynod hedonistaidd, yn llawn o nodau ceirios a mefus. Blas bendigedig wedi'i ffrwyno, canolig ei lawnder, ond unwaith eto'n llawn o nodweddion ffrwythau, yn cynnwys ceirios tywyll, sbeis a rhywfaint o riwbob.

2014 Pio Ceasare Barbera d'Alba, Piemonte Yr Eidal 14% 48.00

Mae Nebbiolo d'Alba yn win dymunol, hawdd ei yfed, a chanddo strwythur cain. Lliw garned dwys gyda phersawr cynnil o rosynnau a fioledau gwyllt, gydag awgrym o fwyar duon a fanila a blas llyfn, sych bendigedig.

2017 Crozes – Hermitage Cave de Tain, Ffrainc 13% 48.00

Wedi'i wneud gyda'r grawnwin Syrah gorau, mae gan y gwin Ffrengig clasurol hwn lawnder canolig a lliw dwfn, gydag arogleuon aeron coch a du, pupur wedi'i falu a gorffeniad llyfn a chyfoethog.

2010 Rioja Crianza Don Jacobo, Sbaen 13.5% **48.00**

Rioja o'r radd flaenaf, 95% Tempranillo. Daw'r cydbwysedd yn sgil y grawnwin Granacha a Mazuelo. Caiff y gwin ei gadw am oddeutu deunaw mis mewn casgenni derw mewn seler oer, cyn iddo gael ei botelu a'i aeddfedu am ddwy flynedd arall.

2012 Barolo, Flori, Yr Eidal 14% **49.00**

Wedi tair blynedd yn dod i oed mewn casgiau derw mawr, mae'r gwin yn datblygu lliw coch ysgafn gydag arlliw o oren. Mae'r arogl yn gymhleth a sbeislyd ac mae'n gyfoethog, llawn gyda thannin melys a gorffeniad sych.

2014 Groot Constantia, Shiraz, De Affrica 13.5% **51.00**

Y winllan hynaf yn De Affrica 1685. Shiraz nodweddiadol ond eto'n gain gyda blas cyrens du, eirin a mafon wedi eu cyfuno â phupur gwyn, pupur du a sbeisys clof. Tannin crwm yn rhoi gorffeniad hir ar daflod y geg.

2014 d'Annona Barbera D'asti superiore, Piemonte Yr Eidal 14.5% **54.00**

Arogl dwys ac aeddfed o geirios, pridd wedi'i grasu, sbeis a nodweddion sawrus, sy'n arwain wedyn at flas llyfn yn llawn ceirios surion, perlaysiau a lledr, gyda rhywfaint o nodau fioled. Gwin bendigedig Barbera – chewch chi mo'ch siomi.

2015 Shiraz Cape Mentelle, Margaret River, Awstralia 14% **56.00**

Cyfuniad o 99.32% Shiraz a 0.68% Zinfandel. Arogl dwys o geirios tywyll a sbeisys melys sinamon, clof a licoris. Hefyd, mae gan y gwin nodweddion sawrus pupur du a chig coch i orffen, gyda nodau o flwch sigârs a ffa coffi wedi'u rhostio.

2013 Chateauneuf-Du-Pape, Les Galets Roules, Ffrainc 13.5% **58.00**

Nid yw wedi ei gynaeafu mewn derw ac mae iddo arogl cynnes, ffrwythau coch sbeislyd ac eirin hirion ar y trwyn gyda blas ceirios tywyll ar daflod y geg; dyma gynhaeaf ffres y gellir ei yfed yn gynnar.

2014 A to Z Oregon Pinot Noir, UDA 13.5% **58.00**

Caiff arogleuon ffres y ceirios a'r aeron cyfoethog eu dilyn gan arogleuon mwy sawrus tybaco, cig wedi'i fygu, pridd a fflint. Yn y geg, mae'r ymosodiad gan ffrwythau coch a glas cryfion yn mynd yn fwyfwy cymhleth ar daflod y geg, gyda'r tanin dwys aeddfed yn cael ei ategu'n berffaith gan bwysau'r ffrwythau.

2013 Amarone Della Valpolicella, La Colombaia, Yr Eidal 15.5% **58.00**

Llawn a lliw garned coch iddo ac arogl eirin gwlanog a rhesins. Blas ceirios aeddfed a licoris gyda chorff melfedaidd, blas fanila a blas jam ffrwyth coch ar ôl ei yfed.

2001 Rioja Faustino I, Gran Reserva, Sbaen 13.5% **59.00**

Cymysgedd o Tempranillo, Graciano, Mazuelo. Mae'r arogl yn gymhleth awn gydag aeron coch, sinamon, clof a derw. Mae yna gydbwysedd bendigedig o dannin ac asid gyda nodau yn aros o ffrwythau aeron a sbeis ar y gorffeniad.

2015 Milamore, Bodega Renacer, Medoza Yr Ariannin 14% **62.00**
45% Malbec, 40% Cabernet Sauvignon, 10% Bonarda, 5% Cabernet Franc. Mae Milamore yn win cyffrous ac arloesol, wedi'i wneud yn y dull "Amarone" go iawn. Gwin llyfn yn llawn arogleuon rhesins, tanin melfedaidd a blasau bendigedig.

2011 Robert Mondavi, Cabernet Sauvignon, Napa Valley, California 14% **72.00**
Rhinweddau ffrwyth fel mwyar duon a casis gyda chymysgedd o elfennau sbeis derw yn arwain at strwythur cain gyda thannin melfedaidd a hyd gwych. Clasur o Napa Valley.

2014 Chateau La Patache, Pomerol, Ffrainc 13.5% **74.00**
Gwin amlwg a chrwm sy'n cynnwys yr holl ffrwyth cyfoethog y byddech yn ei ddisgwyl mewn Merlot o safon. Caiff dyfnder ei roi dan nodau o siocled tywyll a mocha ac mae tannin mân yn awgrymu y bydd posib iddo heneiddio yn dda.

2013 Chateau Lalonde, Saint – Julien, Ffrainc 13% **76.00**
55% Cabernet Sauvignon, 40% Merlot, 5% Cabernet Franc. Gwin a chanddo'r holl gyfoeth a'r holl bŵer a ddisgwylir gan St Julien clasurol. Enghraifft glasurol o nodau plwm pensel a chist de, gyda blas pendant ffrwythau casis dwys a thanin gronynnau mân.

2015 Tomfoolery "Black & Blue" Shiraz, Dyffryn Barossa, Awstralia 14.4% **76.00**
Ar y cychwyn, lliw garned tywyll, clir gyda phersawr hynod beraroglus o ffrwythau cochion, mwyar duon ffres a fioledau. Llyfn a gwisgi ar daflod y geg, gyda blasau aeron / eirin dwys a threiddgar, awgrym o ddrysi a derw aeddfed sy'n arwain at ddyfnder a harmoni hynod.

1999 Vinha do Fojo, Douro, Portiwgal 13% **89.00**
Bydd y gwin coch yma yn plesio rhai sy'n hoffi Barolo a Burgundy yn yr un modd! Yn goch ysgafn yn y gwydr ac yn dangos lliwiau eilradd oren a brown. Asidedd sur, elfennau perlysiâu unigol, nodau mwynau cymhleth balsam, te du a cheirios wedi sychu.

2013 Beaune Teurons, Premier Cru, Domaine Chanson, Ffrainc 12.5% **89.00**
Rhuddgoch llachar gydag arlliw o biws. Arogleuon dwys aeron cochion yn gymysg â siocled a bara wedi'i dostio, gydag awgrym o fanila yn goron ar y cyfan. Pinot Noir cytbwys, hael a llyfn. Tanin llyfn a nodau cynnil o dderw. Gorffeniad hir.

2011 Gevery - Chambertin Louise Jadot, Ffrainc 13% **98.00**
Burgundian Pinot Noir clasurol a ddaw o un o brif winllannoedd cru ym Meaune. Mae'n gymysgedd o rawnwin o bum prif winllan cru sy'n dod ag arogl blodeuog gydag awgrym o rosod a cheirios tywyll.

2014 Emiliana 'GE', D.O. Valle de Colchagua, Chile 14% **99.00**
Cyfuniad o 45% Syrah - 40% Carmenere - 15% Cabernet Sauvignon. Lliw rhuddgoch dwys gydag awgrym o fioled. Mae'r trwyn yn cynnig ceinder a chydbwysedd da o ffrwythau duon aeddfed fel cyrens duon ac eirin sych mewn harmoni ag awgrym cynnil o gloron y moch a sbeisys.

2014 Cloudy Bay, Te Wahi Pinot Noir, Seland Newydd Canolbarth Ontago 14% **115.00**
Pinot Noir a ddaw gyda chlod gydag arogl ceirios cyfoethog a ffrwyth eirin gyda sbeis derw sinamon a chlof. Mae blas ffrwythau melys arno a gwead cyfoethog wedi ei gorbwysu gan asidedd disglair a thannin ystwyth.

2012 N Numanthia, Sbaen 15% **119.00**
100% Tempranillo o ranbarth Toro, Sbaen. Coch llachar tywyll dwfn gydag arlliw rhuddgoch golau. Dwys a chymhleth. Ceir sawl haen o arogleuon i'r gwin bywiog hwn: yn gyntaf, nodau hynod ddwys o ffrwythau coch a du (mwyar duon, mafon, cyrens cochion a chasis) wedi'u plethu'n berffaith gyda sbeisys melys (sinamon, nytmeg a phupur du), fanila a thost.

2015 Tenuta San Guido Sassicaia Bolgheri, Twsgani Yr Eidal 14% **195.00**
"Un o winoedd gorau'r byd a mynegiant hynod gain o Cabernet Sauvignon a Cabernet Franc yn Yr Eidal." Caiff y persawr ei ddwysáu o ran cryfder a dyfnder. Mae'r nodweddion pwysig yn cynnwys ffrwythau aeron tywyll, sbeis, lledr, licoris a ffa coffi wedi'u rhostio. Eto i gyd, mae'n hyfryd a llyfn yn y geg.